# Y COFIADUR

*Rhif 74* *Gaeaf 2023*

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y COFIADUR

## Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

*Rhif 74* *Gaeaf 2023*

Argraffwyd dros y Gymdeithas gan Wasg Serol, Castell-nedd

# Cynnwys


Swyddogion Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru .......................... 3

Rhagair .......................................................................................... 5

Damwain a hap ac athrylith Richard Price (1723–91) .......................... 7

Ewyllys Unedig Menywod dros Heddwch Byd ..................................... 11

Swyddogion Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

*Llywydd*: Miss Joan M. Thomas, Caerfyrddin.

*Trysorydd*: Mr Dafydd Roberts, Trefor.

*Swyddog Hyrwyddo*: Mr Rhodri Darcy, Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ.

Golygyddion *Y Cofiadur*: Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

© 2023 y cyfranwyr

# Rhagair

Hyfrydwch yw cyflwyno'r rhifyn hwn o'r *Cofiadur* i'ch sylw yn y gobaith sicr y cewch bleser a mwynhad o'i ddarllen.


Mae'n cynnwys dwy erthygl a'r gyntaf ohonynt gan yr Athro Gareth Ffowc Roberts, Bangor. Ef a draddododd y Ddarlith Hanes eleni yn Undeb Dwyrain Dinbych a Fflint yn Rhosllannerchrugog ar y testun 'Damwain a hap, ac athrylith Richard Price (1723–91)' ar achlysur trichanmlwyddiant ei eni. Yn ei ddarlith, cyflwynodd yr Athro doreth o wybodaeth yn ei ddull cartrefol, hamddenol gan beri inni ryfeddu at athrylith Richard Price. Nid heb reswm y cafodd Richard Price ei ddisgrifio fel 'y meddyliwr mwyaf gwreiddiol a fagodd Cymru erioed'.

Deiseb Heddwch Merched Cymru 1923–24 yw pwnc erthygl Catrin Stevens, 'Ewyllys Unedig Menywod dros Heddwch Byd'. Llofnodwyd y ddeiseb gan bron bedwar can mil o ferched ac mae'n anodd i ni heddiw ddirnad cymaint o ymdrech a olygodd hynny. 'Gweithgarwch anhygoel' yw'r disgrifiad o'r trefnwyr 'yn cerdded milltiroedd i ganfasio yn y gwynt a'r glaw yn ceisio llofnodion.' Stori arwrol yn wir ac mae'n ardderchog ei bod wedi dod i'r amlwg wedi blynyddoedd o anghofrwydd.

Os ewch i dudalen y Rhwydwaith Heddwch sydd ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, gallwch wrando ar sgwrs rhwng Joan Thomas (Cadeirydd y Gymdeithas Hanes) a Catrin Stevens am y Ddeiseb Heddwch. Mae fideo arall ar yr un dudalen gyda Ffion Fielding yn sôn am ei gwaith yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd fel Rheolwr Prosiect Hawlio Heddwch. Nod y prosiect yw gwneud yn siŵr fod pawb drwy Gymru yn clywed stori'r ddeiseb a thrawsgrifio'r holl enwau sydd arni ac mae apêl am wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith.

Diolch o galon i'r ddau gyfrannwr ac i bawb arall a fu ynglŷn â chyhoeddi'r rhifyn hwn o'r *Cofiadur*.

*Dafydd Roberts*
*ar ran Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru*



*Richard Price*

# Damwain a hap ac athrylith Richard Price (1723–91)

'Damwain a hap yw fy mod yn ei libart yn byw', meddai'r bardd a'r gwyddonydd T. H. Parry Williams. Ar 'ddamwain a hap' yr arweiniwyd Louis Pasteur, cemegydd o Ffrainc yn y 19eg ganrif, i ddarganfod egwyddorion dulliau brechu a chwyldroi meddygaeth er budd pawb ohonom. Yn ôl Pasteur:

> Mae ychydig o wyddoniaeth yn eich pellhau o Dduw, ond mae llawer o wyddoniaeth yn eich tynnu yn agosach ato.

Roedd damwain a hap hefyd yn allweddol yng ngwaith Richard Price, a aned tair canrif yn ôl. Yn athronydd ac yn ddiwygiwr, roedd yn sylfaenydd egwyddorion democratiaeth a chefnogodd annibyniaeth America a phrif nodau'r chwyldro Ffrengig: *liberté*, *egalité* a *fraternité*. Fe'i disgrifiwyd gan yr hanesydd John Davies fel 'y meddyliwr mwyaf gwreiddiol a fagodd Cymru erioed'. Hawdd yw cyfiawnhau'r honiad trwy ddim ond un o'i amryfal ddisgyblaethau – mathemateg.

Ganed Richard Price yn Llangeinwyr ger Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd ei dad, y Parchedig Rice Price, yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Doedd Richard, o oed ifanc iawn, ddim yn gyfforddus gyda daliadau'r Calfiniaid, yn arbennig y pwyslais ar yr angen i'r unigolyn ymddiried mewn bod goruwchnaturiol yn hytrach na dibynnu ar reswm. Darllenodd weithiau diwinyddol yn eang ac fe'i denwyd yn arbennig i syniadau mwy rhyddfrydol Undodiaeth. Dywedir fod ei dad wedi gwylltio un diwrnod wrth ddal Richard yn darllen un o'r llyfrau rhyddfrydol hyn yn y tŷ a'i fod wedi taflu'r llyfr yn syth i'r tân. Poenai'r tad hefyd am y dylanwadau rhyddfrydol posibl ar Richard yn yr ysgolion a fynychodd.

Yn 17 oed, yn dilyn marwolaeth ei ddau riant, aeth Richard i Academi Tenter Alley, ger y Barbican fodern yn Llundain, ac yno yr astudiodd dan

John Eames, gŵr rhyddfrydol ei ddaliadau a geisiai annog ei fyfyrwyr i feddwl drostynt eu hunain. Roedd maes llafur yr Academi yn cynnwys diwinyddiaeth, y clasuron, mathemateg, anatomeg ac athroniaeth. Cafodd Richard flas arbennig ar ddefnyddio mathemateg i ddatrys problemau ymarferol mewn mecaneg, ystadegaeth, hydrostateg ac opteg.

Wedi gadael yr Academi parhaodd Price i ddatblygu ei syniadau am ryddid yr unigolyn o fewn fframwaith Cristnogol, a chafodd amser i gyhoeddi a lledaenu ei syniadau ym meysydd moeseg a diwinyddiaeth yn gyffredinol, gan eu cymhwyso i'r byd gwleidyddol. Erbyn 1758, fe'i penodwyd yn bregethwr gyda'r Undodwyr yng nghapel Newington Green, Llundain. Cadwodd gysylltiad agos â Chymru, yn arbennig gyda'i deulu yn Llangeinwyr. Llundain oedd ei brif ganolfan, fodd bynnag, a dim ond yn gymharol ddiweddar y mae pwysigrwydd ei waith wedi dechrau cael sylw haeddiannol yng Nghymru.

Defnyddiodd Price ei gefndir mewn mathemateg i sefydlu egwyddorion yswiriant. Ef oedd tad y diwydiant yswiriant a flodeuodd yn ystod y 18fed ganrif wrth i nifer o gwmnïau fentro i faes yswiriant yn gyffredinol ac yswiriant bywyd yn benodol. Roedd yn hael iawn ei gyngor a'i gymorth i'r cwmnïau newydd hyn. Elwodd *The Equitable Life Assurance Society,* a sefydlwyd yn 1762, ar ei gyngor a hwn oedd y cwmni cyntaf i sicrhau bod taliadau i gynlluniau yswiriant bywyd yn amrywio yn ôl oed y sawl a oedd yn cael ei yswirio – polisi a fabwysiadodd yn dilyn cyngor Price.

Un arall a gafodd fanteision addysg yn Academi Tenter Alley dan Eames oedd Thomas Bayes (1701-61). Pan fu farw Bayes yn 1761 darganfu ei deulu bentyrrau o bapurau yn ei stydi, ond roedd y cyfan yn gwbl annealladwy iddynt.

Cysylltodd y teulu gyda Price gan ei wahodd i bori trwy'r papurau. Roedd Price yn barod iawn i gyflawni'r gymwynas ac, yn y broses, trawodd ar draethawd am debygolrwydd gan Bayes a sylweddoli yn syth fod ganddo bwysigrwydd ymarferol. Aeth Price ati i dwtio'r traethawd a threfnu iddo gael ei ddarllen o flaen aelodau'r Gymdeithas Frenhinol yn 1763.

Gwraidd syniad Bayes oedd gweld sut yr oedd modd cyfrifo'r tebygolrwydd y byddai rhywbeth penodol yn digwydd yn y dyfodol yn

seiliedig ar ba mor aml yr oedd wedi digwydd yn y gorffennol. Athrylith Price oedd gweld sut y gellid cymhwyso gweledigaeth Bayes i faes yswiriant a'r ffordd y gallai hynny fod o gymorth i bobl gyffredin. Erbyn heddiw mae'r dechneg hon yn effeithio ar fywydau pob un ohonom mewn amryw ffyrdd – wrth ddarogan y tywydd; datblygu triniaethau meddygol newydd; ffiltro negeseuon sbam cyfrifiadurol; ac yn y blaen. Y dechneg hon yw'r cefndir anweledig i'n bywyd modern. Ond yn y 18fed ganrif y ffocws oedd ar fusnes cynyddol yswiriant a chamau cyntaf actiwariaeth.

Crisialwyd gwaith Bayes mewn hafaliad a enwyd yn wreiddiol fel Theorem (neu Reol) Bayes. Erbyn heddiw, cyfeirir ato yn fwyfwy fel Theorem Bayes-Price i gydnabod mai Richard Price oedd y cyntaf i sylweddoli ei bwysigrwydd, ac mai ef a aeth ati i'w ddefnyddio'n ymarferol. Damwain a hap oedd iddo sylwi ar ddarganfyddiad Bayes ond athrylith Price oedd ei allu i weld ymhell ac i ddefnyddio'r hafaliad fel sail i yswiriant.

Am y tro cyntaf yn hanes yswiriant bywyd roedd yn bosibl i gyfrifo disgwyliad oes, sef y cyfnod ar gyfartaledd y gall person ddisgwyl byw, ac i ddefnyddio hynny fel sail ar gyfer cyfrifo cost polisïau yswiriant. O ganlyniad roedd galw mawr gan gwmnïau yswiriant am gyngor Price wrth i fusnes yswiriant dyfu a datblygu. Er bod ganddo lu o ddyletswyddau eraill i'w cyflawni, gan gynnwys fel pregethwr, roedd yn hael iawn ei gyngor gan dreulio oriau lawer yn dadansoddi ystadegau, yn aml ar draul ei iechyd ei hun. Fe'i hysgogwyd i fod yn hael o ran ei amser gan yr ymdeimlad ei bod yn ddyletswydd arno i weithredu'n egwyddorol er lles pawb.

Dywedir am Richard Price y byddai'r gweithwyr yn ardal Covent Garden yn gwasgaru o'i flaen wrth iddo yrru drwy'r dorf ar gefn ei geffyl gwyn: 'Make way for the good Dr Price!' fyddai'r gri. Mae'r hanesyn yn dweud llawer am y parch a ddenai ymysg y bobl gyffredin, a'r cyfan ar sail damwain a hap, ie, ond bod hwnnw yn ddamwain a hap athrylithgar.

*Gareth Ffowc Roberts*
*Mehefin 2023*

Gweler pennod 4 *Cyfri'n Cewri* (2020, Gwasg Prifysgol Cymru)



Llun: *llun drwy ganiatâd WCIA / Archif y Deml Heddwch*

*Chwith i'r dde:* Gladys Thomas, Mary Ellis, Annie Hughes Griffiths ac Elined Prys yn Washington, DC

# Ewyllys Unedig Menywod dros Heddwch Byd

Mae'n siŵr fod darllenwyr *Y Cofiadur* wedi clywed am ddeiseb enfawr merched Cymru at ferched America yn 1923–24 erbyn hyn. Dyma stori fawr 2023–24 wrth inni geisio cofio'r hanes; dathlu'r canmlwyddiant a gwireddu gweledigaeth a chenhadaeth y ddeiseb ryfeddol hon.

Ac eto, naw mlynedd yn ôl prin iawn oedd y rhai a wyddai unrhyw beth amdani o gwbl. Ceir tair brawddeg am y ddeiseb yng nghyfrol Goronwy J. Jones, *Wales and the Quest for Peace* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1969) ond distawrwydd llethol fel arall. Dyma stori gudd a aeth yn angof yn hanes Cymru a hanes menywod yng Nghymru yn arbennig.

Darganfod clawr hardd yr Apêl neu'r Ddeiseb yn llyfrgell y Deml Heddwch yng Nghaerdydd yn 2014 oedd dechrau'r holi a gweld bod 390,296 o fenywod wedi ei harwyddo. Yna cael gwefr o ddarllen y datganiad o fewn y clawr:

> … apeliwn atoch, Ferched Unol Daleithiau'r America, yn eich amser da eich hunain, ac ar hyd y llwybrau a fo oreu gennych, i'n cynorthwyo yn ein hymdrech i drosglwyddo i'r oesau a ddêl fyd di-ryfel yn dreftadaeth dragywydd.

A dyma ddechrau holi ac ymchwilio gan fudiad Heddwch Nain/Mam-gu yn arbennig a llwyddo i olrhain yr hanes mewn dogfennau pellach yn y Deml Heddwch ac yn y Llyfrgell Genedlaethol, gan gynnwys darganfod dyddiadur Annie – un o brif arweinwyr yr ymgyrch, ac yna, i goroni'r cyfan, cael hyd i'r ddeiseb ei hun yng nghrombil amgueddfa'r Smithsonian, yn Washington. A dyma pam y sefydlwyd Partneriaeth Hawlio Heddwch i sicrhau ein bod fel heddychwyr ac ymchwilwyr heddiw yn barod ar gyfer y canmlwyddiant eleni a'r flwyddyn nesaf.

Mae'r datganiad uchod yn urddasol ac eto'n deimladwy a wyddom ni ddim i sicrwydd pwy a'i lluniodd, ond mae'n bosibl fod gan Sydney Herbert,

darlithydd yn adran newydd Gwleidyddiaeth Ryngwladol Coleg y Brifysgol Aberystwyth a sefydlwyd yn 1919, ran allweddol yn y geirio gofalus.

Byddai hynny wedi bod yn briodol gan mai'r AS Rhyddfrydol a'r diwydiannwr cefnog, David Davies, Llandinam, oedd wedi gwaddoli'r adran hon i'r brifysgol ac yntau hefyd a sicrhaodd sefydlu Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru yn 1920 fel cangen o'r mudiad ehangach dros heddwch byd. Nod yr Undeb oedd hyrwyddo cyflafareddu fel modd i ddatrys problemau rhyngwladol cyn i wledydd godi arfau i ryfela. Yn wir, yn dilyn cyflafan erchyll y Rhyfel Byd Cyntaf roedd awydd gwirioneddol ymysg llawer o wledydd a ymunodd â'r Undeb am heddwch parhaol ac arhosol. Ond roedd consýrn mawr, hefyd, nad oedd America wedi ymrwymo â'r Undeb a'i llywodraeth a'i harlywydd yn simsanu ar y mater.

Yn 1922 penodwyd y Parchg Gwilym Davies yn Gyfarwyddwr Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru, a lansiodd ef Neges Ewyllys Da oddi wrth blant Cymru i blant y byd yn yr un flwyddyn. Ond yna cafodd syniad arall, a gofynnodd (o'i gyfieithu):

> A fyddai'n bosibl i Fenywod Cymru fynd at Fenywod America a dweud wrthyn nhw'n ddidwyll am eu pryder dros ddyfodol gwareiddiad?

Codwyd y cwestiwn yng nghyfarfod Cyfysgol Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Llandrindod ym mis Awst 1922 ac arweiniodd hyn yn ei dro at lansio'r ymgyrch yn ffurfiol mewn cynhadledd o fenywod yr Undeb ym Mhrifysgol Aberystwyth ar 23 Mai 1923. Y Cynghorydd Rose Davies, Aberdâr, gynigiodd yn ffurfiol a chafodd ei heilio gan aelodau o Ddyffryn Ogwen, Abertawe a Chaerdydd, gan ddangos yn eglur bod hwn yn fater o bwys i fenywod Cymru gyfan.

Mae'r swyddogion a benodwyd i lywio'r ymgyrch yn adlewyrchu hynny hefyd. Y llywydd oedd Mary Rathbone, Llandegfan, Ynys Môn a oedd yn adnabyddus iawn ym myd addysg ac adfer y gymdeithas wedi'r rhyfel yng ngogledd Cymru a'r ddwy drysoryddes oedd y Fonesig Magdalene Anne Llewellyn, gwraig gefnog yn byw yn The Court, Sain Ffagan, ac Annie Hughes Griffiths (Mrs Peter Hughes Griffiths yr adroddiadau swyddogol i

gyd). Dyma Annie Davies, o Gwrt-mawr, Llangeitho yn wreiddiol, a briododd yr AS carismataidd Tom Elis, un o sefydlwyr y mudiad Cymru Fydd gyda Lloyd George. Ond bu Tom Elis farw'n ifanc ac ymhen rhai blynyddoedd priododd hi'r Parchedig Peter Hughes Griffiths, gweinidog eglwys Charing Cross yn Llundain. Erbyn 1923 roedd hi'n byw yn Golders Hill, Llundain.

Penderfynodd y pwyllgor benodi dau drefnydd a gâi honorariwm o £100 yr un i hyrwyddo'r canfasio ledled Cymru. Gogledd Cymru a Cheredigion oedd maes Mary Ellen Pritchard, Pwllheli ac ar derfyn yr ymgyrch tystiodd y *North Wales Weekly News,* bod llawer o'r clod am lwyddiant y fenter yn ddyledus i'w hamynedd, ei dyfalbarhad, grym ei pherswâd, ei brwdfrydedd heintus, a'i hoptimistiaeth hudolus. Deuai Ethel Elizabeth Poole (*née* Tyson) trefnydd De Cymru a Sir Fynwy, o gefndir cwbl wahanol. Cafodd ei geni ym Mryste ac roedd ei thad yn filwr proffesiynol yn gwasanaethu ledled y byd. Symudodd y teulu i Gasnewydd a bu Ethel yn ddisgybl-athrawes cyn priodi ag athro lleol, Percival Poole. Yn arwyddocaol, collodd hi ei brawd chwech ar hugain oed ar faes y gad yn Ffrainc yn 1916.

Tra bod y ddeiseb yn cael ei pharatoi yn ddwyieithog a'r ymgyrch i godi arian yn cael ei lansio, ymddengys bod rhai egwyddorion sylfaenol wedi eu cytuno. Roedd hawl, meddid, gan bob menyw yng Nghymru dros 18 oed, boed Gymraes, Gwyddeles, Albanes neu Saesnes, i arwyddo'r ddeiseb ond roedd yn rhaid ceisio rhwystro dynion rhag ei llofnodi. Roedd yn rhaid iddi fod yn anwleidyddol ac yn anenwadol a hynny mewn cyfnod pan oedd pleidio o'r fath yn rhemp. Mae'n drawiadol sut y llwyddwyd i wireddu'r egwyddorion hyn.

Syrthiodd baich trymaf yr ymgyrchu ar ysgwyddau 412 o drefnwyr lleol a chydol misoedd yr hydref a'r gaeaf 1923 buon nhw'n ddyfal yn cynnal cyfarfodydd ar lawr gwlad ac yn sicrhau cefnogaeth i'r apêl. Ceir rhestr ohonynt ar wefan yr Academi Heddwch ac wrth olrhain eu hanesion mae'n amlwg bod pob plaid wleidyddol – yn Rhyddfrydwyr, Llafurwyr a Cheidwadwyr – a phob enwad – yn Annibynwyr, Bedyddwyr, Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd ac aelodau'r Eglwys yng Nghymru a sefydlwyd yn 1922 – i gyd yn frwdfrydig a gweithgar yn eu hardaloedd. Yn fwy trawiadol

fyth llwyddwyd i rychwantu dosbarthiadau cymdeithasol hefyd gyda menywod bonheddig plastai a chartrefi moethus yn cydweithio â merched oedd yn byw yn nhai teras cymoedd de Cymru. Ymfalchïent yn eu gorchestion – yn ôl y gohebydd anhysbys 'M' yn y *Welsh Outlook,* (o'i gyfieithu):

> Dyma enghraifft glodwiw o waith tîm menywod, a gwych o beth, gweld menywod o bob dosbarth, cred, a barnau gwleidyddol yn gweithio yn ffyddlon dros achos a oedd yn deilwng ohonynt.

Heddiw, pan fo cymaint o bwyslais ar amrywiaeth a chynhwysiant diwylliannol dyma neges bwysig o ganrif yn ôl, a dylai fod yn un o brif negeseuon yr hanesyn hwn i fenywod Cymru heddiw.

Yn sgil gweithgarwch anhygoel y trefnwyr hyn yn cerdded milltiroedd i ganfasio yn y gwynt a'r glaw, yn ceisio llofnodion menywod addysgedig y prifysgolion a'r colegau yn ogystal â'r rhai anllythrennog a arwyddai â chroes, erbyn diwedd Ionawr 1924 roedd y ddeiseb gyfan, saith milltir o hyd yn ôl papur newydd yn Efrog Newydd, mewn cist dderw gref yn barod ar gyfer y siwrnai i America. Ond roedd Gwilym Davies ar y cyd â'r Arolygydd ei Mawrhydi, Mary Ellis, wedi bod wrthi'n paratoi'r ffordd cyn hyn. Aethai Mary Ellis allan i America ym mis Rhagfyr 1923 i gyfarfod â menywod allweddol y mudiadau heddwch yno, yn eu plith, menywod adnabyddus fel Florence Tuttle a Harriet Laidlaw, arweinwyr Cyngor y Menywod o Blaid yr Undeb; Ruth Morgan, cadeirydd Pwyllgor Menywod dros Heddwch Cynghrair y Pleidleiswragedd a Carrie Chapman Catt un o fenywod mwyaf dylanwadol mudiadau menywod yn y wlad. Gwelodd y rhain bosibiliadau'r ymgyrch hon o barth 'tywysogaeth fechan' Cymru ar unwaith gan eu bod hwythau yn awyddus dros ben i hyrwyddo Undeb Cynghrair y Cenhedloedd yn yr Unol Daleithiau. Ymddengys y byddai'r apêl yn cyd-daro â moment seicolegol bwysig yn eu hanes.

Roedd Mary Ellis yn un o ddirprwyaeth o dair o Gymru. Teithiodd y ddwy arall, Annie Hughes Griffiths ac Elined Prys, a gynrychiolai'r genhedlaeth iau, ar long foethus y *Cedric* i Efrog Newydd ddechrau

Chwefror 1924. Diolch i drefniadau trylwyr Mary, roedd y croeso yn frwd ac effeithiol. Gwahoddwyd y tair i ginio mawreddog yng ngwesty newydd mawreddog y Biltmore ar 19 Chwefror a'u cyfarch yno gan 400 o fenywod yn cynrychioli rhyngddynt ryw 16 miliwn o fenywod o bob rhan o America a ddymunai weld hyrwyddo heddwch byd. Cafwyd digwyddiad cofiadwy wrth i Annie ddarllen datganiad yr Apêl a gwneud 'araith ragorol', cyn trosglwyddo allweddau cloeon y gist i Ruth Morgan a Harriet Laidlaw. Yr oedd, yn ddi-os, yn ddigwyddiad emosiynol iawn i'r tair a gwnaethant argraff fawr ar y menywod yno gan gynnwys Eleanor Roosevelt, a oedd yn dechrau dod i amlygrwydd mewn bywyd cyhoeddus.

Ond trannoeth roedd taith arall o'u blaenau ar y trên trwy storm o eira i Washington. Yno cawsant groeso'r un mor gynnes gan Gymdeithas Menywod y Prifysgolion yn America cyn mynd wedyn i'r Tŷ Gwyn i gyfarfod â'r Arlywydd, Calvin Coolidge. Cyfarchodd yntau hwy'n dawel ac urddasol, derbyniodd gopi o'r Memorandwm. Bu yntau'n allweddol, yn y pen draw, yn sicrhau bod y gist yn cael ei chadw 'for all time' yn Amgueddfa'r Smithsonian yn Washington, gan ei fod yn un o'i hymddiriedolwyr. Cyfarfu'r menywod hefyd â'r Ysgrifennydd Gwladol, y Cymro o dras, Charles Evans Hughes, a gefnogai'r Undeb ond a roddodd dderbyniad hunanfoddhaus a nawddoglyd iddyn nhw, yn ôl Annie. Fel y nododd Margaret Hughes West o grŵp ymchwil Heddwch Nain/Mam-gu UDA, 'Roedd dwy ochr i Charles Evans Hughes bob amser. Cyfarfu'r Cymraësau ag un barfog y gweithle' y diwrnod hwnnw! Rhaid cofio er hynny mai bonws annisgwyl oedd cyfarfod â'r Arlywydd a'i Ysgrifennydd Gwladol ac mai dwyn neges heddwch 'o gartrefi Cymru i gartrefi America' oedd gwir nod a hanfod Deiseb Heddwch 1923–24.

Fodd bynnag, rhaid cydnabod na lwyddwyd i ddwyn perswâd ar UDA i ymuno ag Undeb Cynghrair y Cenhedloedd, ac ymhen pymtheg mlynedd roedd y byd yn gwegian dan ryfel byd arall. Ond ni ddylai hyn bylu dim ar ein gwerthfawrogiad o orchest trefnu Apêl Merched Cymru. Bu'n sbardun i ferched America ymuno i sefydlu Pwyllgor Cenedlaethol 'for the Cause and Cure of War' a pharhaodd y menywod yng Nghymru gydol y dauddegau a'r tridegau i gefnogi pob ymdrech o blaid heddwch. Roedd y

briw'n dal yn ddwfn a chymaint ohonynt yn famau, gwragedd, merched, cariadon, ffrindiau a chymdogion y 40,000 o ddynion a menywod a laddwyd gan gyflafan y Rhyfel Byd Cyntaf. Er nad oeddent efallai yn heddychwyr gan na heriwyd hwy i ymuno'n weithredol yn y rhyfela ac iddynt gefnogi'r ymgyrch ryfel trwy godi arian, gwau cysuron i filwyr a morwyr, a gweithio fel nyrsys ac mewn ffatrïoedd arfau rhyfel, eto roeddent yn awr yn barod i frwydro'n daer dros heddwch arhosol.

Ond beth am y dathlu yn 2023–24? Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, dychwelodd y gist o'r Smithsonian ar 5 Ebrill 2023 i'r Llyfrgell Genedlaethol – nid ar fenthyg ond yn rhodd i'r genedl. Agorwyd y gist unwaith eto a gwelwyd y llofnodion lu ar dudalennau'r ddeiseb fawr. Ac mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi gosod tasg i'n herio. Mae angen gwirfoddolwyr i drawsysgrifio'r bron i 400,000 o lofnodion a'u cyfeiriadau – fel y gellir eu gosod ar wefan a'i gwneud yn bosibl i ni eu harchwilio a gweld a ydy ein nain/mam-gu ni wedi ei llofnodi neu a oedd y fenyw fu'n byw yn ein cartref ni o'n blaen yn eu plith. Beth am fynd i cefnogiheddwch.cymru i gofrestru?

Mae'n amser cyffrous i'r Bartneriaeth Hawlio Heddwch. Dadorchuddiwyd Plac Porffor ar 3 Tachwedd ar gartref teulu Annie Hughes Griffiths ym Maes Lowri, Aberystwyth i goffáu ei chyfraniad clodwiw a chan mai hi oedd cadeirydd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru ar y pryd. Ac yna, rai oriau'n ddiweddarach lansiwyd y gyfrol ddwyieithog gan nifer o awduron yn adrodd yr holl hanes: *Yr Apêl The Appeal 1923–24 Hanes Rhyfeddol Deiseb Heddwch Menywod Cymru / The Remarkable Story of the Welsh Women's Peace Petition* (Y Lolfa, 2023) fel rhan o Ŵyl Ymchwil 'Hawlio Heddwch / Pursuit of Peace' Prifysgol Aberystwyth.

Bydd hyn oll yn rhoi cyfle i ni fyfyrio ar freuddwyd aruchel a chenhadaeth arloesol menywod 1923–24 a cheisio gwireddu eu gweledigaeth ryfeddol yn y cyfnod hynod heriol hwn heddiw.

*Catrin Stevens*
*Tachwedd 2023*